**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

12 Mai 2023

Annwyl Jane

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ddigwyddiad bwrdd crwn i randdeiliaid yn ddiweddar i drafod y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Yng ngoleuni'r trafodaethau a gafodd yr Aelodau gyda rhanddeiliaid yn y digwyddiad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eglurhad ar y canlynol:

> Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd y broses o roi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith?
>
> Pa rôl fydd gan y cydgysylltwyr cydlyniant wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan gynnwys manylion ar sut y bydd y naw cydgysylltydd cydlyniant hyn yn gweithio ledled Cymru, a beth yw eu rôl yn fwy cyffredinol?
>
> Pa rôl fydd gan y tîm gweithredu wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac a yw'r tîm yn gwbl weithredol ar hyn o bryd, gan gynnwys a yw'r holl staff wedi'u penodi?

Diolch yn fawr am eich cymorth o ran darparu'r manylion hyn.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol